Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2020 – Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1984A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ysgwyddo ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, a rhoi adroddiadau i'r Senedd ynghylch a yw'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol sy'n cwmpasu Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân, y naill a'r llall â'i swyddogaethau cyfreithiol ei hun fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti, mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynghylch yr adroddiad hwn 4

Y prif negeseuon 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 14

Cynllunio gweithredol 17

# Adroddiad cryno

## Ynghylch yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau asesiad strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn 2020. Ymgymerwyd â'r gwaith i helpu i gyflawni'r gofyniad statudol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, y dylai'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Eleni, ymgymerwyd â'r gwaith o ran yr Asesiad Strwythuredig ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i heriau parhaus nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen oherwydd pandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr ymchwydd disgwyliedig yn nifer yr achosion o COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys atal gweithgareddau wedi'u cynllunio nad oeddent yn rhai brys, a llacio'r targedau a'r trefniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso'r ystod eang o gamau yr oedd angen eu cymryd i ymateb ar fyrder i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 ar sail canllawiau chwarterol sy'n amlinellu'r prif ystyriaethau o ran cynllunio ar gyfer cyfnod nesaf y pandemig, gan gynnwys darparu gwasanaethau hanfodol a mynd ati'n raddol i ailgyflwyno gwasanaethau arferol.

4 Cynlluniwyd ein gwaith yng nghyd-destun yr ymateb a oedd yn mynd rhagddo i'r pandemig i sicrhau ein bod yn mynd ati mewn ffordd bragmatig briodol i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gyfnod nesaf pandemig COVID-19.[1] Mae'r gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd yr archwilwyr hefyd sylw i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r argymhellion blaenorol[2] hynny a oedd yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu'r sefydliad a rheoli arian, yn enwedig yn y sefyllfa bresennol.

5 Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau o dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: i gefnogi'r ymateb sy'n dal i fynd rhagddo i'r pandemig ar y naill law ac i ddarparu gwasanaethau hanfodol eraill ar y llall.

[1] Cafodd ein gwaith ei gydgysylltu ag adolygiad llywodraethu cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol a oedd yn cynnwys profion pellach o'r rheolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

[2] Cewch hyd i'n hargymhellion blaenorol yn adroddiad 2019.

# Y prif negeseuon

6 Yn gyffredinol, bu inni ganfod bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal trefniadau effeithiol tra mae'n ymateb i heriau COVID-19. Rhoddodd bwyslais mawr ar dryloywder a chydweithio wrth iddi ymgymryd â'i busnes. Aeth yr Ymddiriedolaeth ati'n gyflym i addasu ei threfniadau cynllunio, diogelwch ac ansawdd, ac mae'n dal i bennu cyfleoedd i wella ac i ddod yn fwy cydnerth.

7 Mae'r Ymddiriedolaeth a'i Bwrdd wedi gweithio'n dda i gynnal y rhaglen fusnes tra maent yn ymateb i COVID-19. Yn ei hymateb, bu modd i'r Ymddiriedolaeth adeiladu ar ei Chynllun Pandemig a oedd yn bodoli eisoes, gan sefydlu trefn reoli i wneud penderfyniadau cyflym a gwybodus. Mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd wedi cwrdd i oruchwylio agweddau pwysig ar ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19, ynghyd â'r trefniadau gweithredol arferol. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo sefydlu pwyllgor newydd i gryfhau ei threfniadau partneriaeth â phrifysgolion a phartneriaid allweddol eraill. Mae gwybodaeth yn llifo'n effeithiol oddi wrth Dîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd, ond mae lle i wella'r modd y mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi yn log penderfyniadau COVID-19. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn cydweithio'n dda ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i bennu gwersi o'r pandemig ac i ddysgu ohonynt. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i oruchwylio ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau, gan gynnwys newidiadau a wnaed yn sgil COVID-19, ac mae'n gwella'r modd y mae'n rheoli risg.

8 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli adnoddau ariannol yn dal i fod yn effeithiol. Bu iddi fodloni ei dyletswyddau ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ragamcanu y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2020-21, ond mae hynny'n dibynnu ar gyflawni targedau uchelgeisiol i arbed arian ac ar gael incwm ychwanegol ar gyfer ei gwariant ar COVID-19. Mae rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn gryf ac mae'n rhoi gwybodaeth glir am ei pherfformiad ariannol i'r Bwrdd ei goruchwylio a chraffu arni. Fodd bynnag, o ran COVID-19, mae lle i wella'r prosesau i gymeradwyo gwariant o fewn y drefn reoli a lle i gryfhau'r rheolaethau ar gyfer taliadau ychwanegol i staff. Mae rhai o argymhellion Asesiad Strwythuredig 2019 yn dal i aros i gael eu rhoi ar waith hefyd, a hynny oherwydd i'r Ymddiriedolaeth atal ei gwaith o ran argymhellion archwilio yn ystod y pandemig. Mae disgwyl i'r Pwyllgor Archwilio ystyried dyddiadau diwygiedig i roi'r argymhellion blaenorol ar waith ym mis Medi 2020.

9 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd ati'n gyflym i baratoi cynlluniau gweithredol ymatebol sy'n ateb gofynion Llywodraeth Cymru. Mae wedi pennu'r adnoddau y mae eu hangen arni i roi'r cynlluniau ar waith, gan gynnwys gweithlu hyblyg a mwy o faint. Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu'r risg i'w gweithlu ac yn gwneud newidiadau i gefnogi ei staff. Mae hefyd wedi cyfathrebu'n fewnol yn rheolaidd ac yn effeithiol, a chyflwyno ffyrdd newydd o gefnogi llesiant ei staff. Cafodd cynlluniau strategol eu llunio, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys undebau llafur a chomisiynwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu'r

dull a ddefnyddir ganddi i adfer y sefydliad, gan gynnwys adolygu ei chamau strategol, ac mae wedi adfer ei threfniadau i gyflawni ei chamau strategol ac i adrodd am ei pherfformiad strategol ers mis Gorffennaf 2020.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd ar sail ein gwaith yn 2020, ond rydym wedi nodi cyfleoedd i wella drwy'r adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Bu ein gwaith ar yr asesiad strwythuredig yn ystyried gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn tra mae'n ymateb yn gyflym i heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen yn sgil y pandemig. Buom hefyd yn adolygu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol o ran Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.

12 Bu inni ganfod **bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol ar y cyfan tra mae'n ymateb i COVID-19, gan gynnwys ffocws ar ansawdd; ond gallai wneud gwelliannau pellach o ran y modd y mae'n cofnodi penderfyniadau ac yn rheoli risgiau.**

### Ymgymryd â busnes yn effeithiol

13 **Aeth yr Ymddiriedolaeth ati ar fyrder i roi ei Chynllun Pandemig ar waith ac i addasu'r Cynllun yn ôl y gofyn.**

14 Ym mis Chwefror 2020, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i baratoi ar gyfer y pandemig. Gan ddefnyddio'i Chynllun i Reoli Pandemig y Ffliw (y Cynllun Pandemig), pennodd adrannau'r Ymddiriedolaeth i ba raddau y gallai staff gael eu hadleoli ar draws gwahanol feysydd neu ddechrau gweithio gartref, a hynny cyn i'r pandemig gael ei gyhoeddi. Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Pandemig ar waith ar 4 Mawrth 2020 ac fe sefydlodd drefn reoli i arwain ei hymateb. Mae trefn reoli'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys celloedd a thimau trawsadrannol a reolir gan Dîm Gweithredol y Pandemig.[3]

15 Gan fod modd iddi ddefnyddio a chryfhau Cynllun Pandemig a oedd yn bodoli eisoes, bu hyn o gymorth mawr i'r Ymddiriedolaeth baratoi ar gyfer y pandemig ac ymateb iddo. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi addasu'r Cynllun Pandemig yn ôl y gofyn, er enghraifft, drwy ehangu'r drefn reoli i gynnwys cell iechyd a diogelwch, cell undebau llafur, a chell cyngor clinigol. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Cynllun Pandemig wedi'i ddiweddaru hyd yma i gynnwys y newidiadau a wnaed yn ddiweddarach. Byddai'n ddefnyddiol gwneud hyn rhag ofn y ceir ail benllanw.

16 Cyfarfu celloedd a thimau'r drefn reoli'n aml iawn rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020. Roedd y drefn reoli'n dal i fod ar waith pan oeddem yn ymgymryd â'n gwaith ond roedd y cyfarfodydd yn digwydd yn llai aml. Mae aelodau Tîm Gweithredol y Pandemig yn gweithredu fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd pob cell neu dîm, ac maent yn rhoi adroddiadau i Dîm Gweithredol y Pandemig am y prif bwyntiau trafod a'r prif gamau gweithredu i sicrhau bod gwybodaeth yn llifo. Paratoir 'papurau'r pandemig' hefyd i roi tystiolaeth o'r trafodaethau a geir o fewn y drefn reoli. Fodd bynnag, mae adolygiad cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r adroddiadau

[3] Mae Tîm Gweithredol y Pandemig yn cyfeirio at gyfarfodydd Tîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar ei hymateb i'r pandemig.

llywodraethu'n dweud bod lle i wella'r modd y mae penderfyniadau'n cael eu cofnodi yn y papurau hyn. Ar hyn o bryd, mae papurau'r pandemig yn nodi'n bennaf pa bryd y cafodd materion pwysig fel cyfarpar diogelu personol eu trafod, yn hytrach na rhoi manylion am benderfyniadau pwysig a'u sail resymegol. Mae hefyd yn anodd dirnad o bapurau'r pandemig sut y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried y gofynion newydd sylweddol a gyflwynwyd o ran COVID-19 a'r camau y mae'n eu cymryd i gydymffurfio â nhw.

17 **Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau wedi ceisio ymgymryd â'u busnes mewn ffordd agored a thryloyw yn ystod 2019-20, gan gynnwys o ran COVID-19, ond cafwyd oedi cyn cyhoeddi rhai cofnodion pwyllgor.**

18 Caewyd cyfarfodydd y Bwrdd i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2020 oherwydd y gofynion i gadw pellter cymdeithasol ac mae wedi cwrdd yn rhithwir ers hynny. Cynhaliodd y Bwrdd nifer o gyfarfodydd caeedig ychwanegol rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf i drafod materion brys ac i sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith o ran penderfyniadau pwysig. Ers mis Mai 2020, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ffrydio cyfarfodydd y Bwrdd yn fyw drwy Zoom ac ar ei thudalen Facebook. Yn sgil cynnal cyfarfodydd rhithwir, mae nifer y rhai sy'n arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae'r Bwrdd wedi croesawu hyn. Mae'n fuddiol bod y Cadeirydd yn atgoffa'r aelodau o'r ymddygiad gofynnol mewn cyfarfodydd rhithwir ar ddechrau pob cyfarfod. Fel rhan o'r cyfarfodydd rhithwir newydd, mae'r Bwrdd hefyd wedi gwahodd cwestiynau gan y cyhoedd ymlaen llaw ac yn ystod ei gyfarfodydd.

19 Mae papurau cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gael ymlaen llaw ar y cyfan. Yn gyffredinol, mae'r papurau o ansawdd uchel ac maent yn crynhoi gwybodaeth gymhleth mewn ffordd eglur, yn enwedig adroddiadau'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diwygio tudalennau blaen papurau'r Bwrdd yn 2020 er mwyn iddynt gynnwys prif bwyntiau trafodaethau'r pwyllgorau i roi sicrwydd i'r Bwrdd o ran craffu ac i gefnogi'r broses benderfynu. Mae trafodaethau'r Bwrdd yn dangos ei fod yn gweithredu fel tîm, gyda thystiolaeth bod yr aelodau'n herio'i gilydd mewn ffordd adeiladol ac yn cefnogi'i gilydd. Yn gyffredinol, cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf. Gall hyn gymryd sawl mis. Fodd bynnag, nid oedd rhai cofnodion pwyllgor wedi'u cyhoeddi o hyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth pan oeddem yn ymgymryd â'n gwaith.

20 Dywedodd Cyfarwyddwyr Anweithredol fod y trefniadau i roi gwybod i'r Bwrdd am waith ymatebol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda. Yn ogystal â rhoi adroddiadau penodol am COVID-19 i'r pwyllgorau, mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dulliau anffurfiol i sicrhau bod aelodau'n cael gwybod am hynt y gwaith. Mae'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn sesiynau briffio rheolaidd â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol sydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd â'r Prif Weithredwr bob pythefnos. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd wedi ymuno â sesiynau wythnosol i'r holl staff drwy Zoom (gweler **paragraff 42**) i wrando ar bryderon y staff.

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn agored â'i phartneriaid allweddol, gan gynnwys drwy gyfarfodydd wythnosol y Prif Weithredwr a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans (y Comisiynydd). Drwy'r cyfarfodydd hyn, bu modd cael trafodaethau gonest ac adeiladol i gefnogi penderfyniadau pwysig am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth a'i gwariant o ran COVID-19. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cyfathrebu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd sy'n comisiynu ei gwasanaeth, er enghraifft, o ran ehangu ei gwasanaeth 111 a chynllunio trefniadau cludiant yr ysbytai dros dro.

22 **I raddau helaeth, bu modd i'r Ymddiriedolaeth barhau i gynnal busnes arferol ei Bwrdd a'i phwyllgorau yn ystod y pandemig.**

23 Mewn cyfarfod ym mis Mawrth 2020, bu'r Bwrdd yn ystyried ei drefniadau llywodraethu yng ngoleuni canllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru. Penderfynodd y Bwrdd ddefnyddio'r trefniadau llywodraethu presennol, a chamau gweithredu'r Cadeirydd yn benodol, i sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau prydlon i ymateb i'r pandemig. O ran camau gweithredu'r Cadeirydd, mae angen i'r Cadeirydd a dau lofnodydd arall o blith y Cyfarwyddwyr Anweithredol gytuno arnynt, a rhoddir gwybod i'r Bwrdd ehangach amdanynt yn y cyfarfodydd nesaf. Gan fod Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth eisoes yn darparu ar gyfer camau gweithredu'r Cadeirydd, ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth newid ei Rheolau Sefydlog, ei Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog na'i Chynlluniau Dirprwyo at y diben hwn.[4]

24 Penderfynodd y Bwrdd y byddai pob un o'i is-bwyllgorau'n parhau i weithredu. Maent wedi cyfarfod yn rhithwir, ond yn wahanol i gyfarfodydd y Bwrdd, ni all y cyhoedd arsylwi ar eu cyfarfodydd. Ym mis Gorffennaf 2020, cytunodd y Bwrdd i sefydlu Pwyllgor Partneriaethau Academaidd newydd a fydd yn dechrau cwrdd bob chwarter yn hwyrach yn 2020. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu datblygu a chryfhau'r gwaith partneriaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, a phartneriaid allweddol eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru.

25 Adrodd am berfformiad oedd yr unig ran o'i busnes arferol y bu i'r Ymddiriedolaeth ei gohirio'n rhannol yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2020. Ni fu i'r Bwrdd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019-20 gan fod Llywodraeth Cymru wedi hepgor y gofyniad i adrodd am chwarter pedwar. Roedd yr adroddiad diwethaf am y Cynllun Tymor Canolig Integredig a roddwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2019 yn dweud bod cynnydd o ran tri chwarter amcanion yr Ymddiriedolaeth yn wyrdd. Yn natganiad llywodraethu blynyddol 2019-20, dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi gwneud cynnydd da hyd at ddiwedd mis Mawrth, ond nid ydym wedi asesu'r cynnydd hwn fel rhan o'n hadolygiad. Ers mis Mehefin 2020, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailgyflwyno ei threfniadau arferol i adrodd am berfformiad. Fodd bynnag, yn ein hadroddiad am Asesiad

[4] Yn fwy diweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i newid ei Rheolau Sefydlog dros dro yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020-21 yn hwyrach na'r arfer.

Strwythuredig 2019, bu inni argymell y dylai’r Ymddiriedolaeth adolygu ei fframwaith rheoli perfformiad. Nid yw wedi cwblhau’r gwaith hwn hyd yma.

26 **Mae’r Ymddiriedolaeth yn dal i ddangos ei hymrwymiad i ddysgu ac i wella’n barhaus.**

27 Ar hyn o bryd, mae pob swydd ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi’i llenwi, a hynny ar ôl penodi tri Chyfarwyddwr Anweithredol a phedwar Cyfarwyddwr dros y 12 mis diwethaf.[5] Cafodd rhaglen gynefino Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd ei hatal dros dro yn 2020 oherwydd COVID-19. Mae’r Ymddiriedolaeth yn bwriadu dadansoddi bylchau i bennu gofynion hyfforddi aelodau newydd y Bwrdd. Dylai wneud hyn cyn gynted â phosibl i bennu unrhyw ofynion hyfforddi ac i fynd i’r afael â nhw.

28 Mae’r Bwrdd wedi ymrwymo i wella’n barhaus. Er bod rhaglen ddatblygu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi’i hatal dros dro yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig, mae disgwyl i raglen newydd ddechrau ym mis Medi 2020.

29 Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2020, rhoddwyd sicrwydd i’r aelodau ar lafar ynghylch y trefniadau parhad busnes os na fydd modd i aelodau’r Bwrdd gyflawni eu dyletswyddau am resymau sy’n ymwneud â COVID-19, fel salwch. Er enghraifft, bydd y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb os nad yw'r Cyfarwyddwr yn gallu gweithio. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau hyn wedi’u nodi yng Nghynllun Pandemig yr Ymddiriedolaeth nac yng nghofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth ar hyn o bryd. Er eglurder, byddai'n fuddiol ffurfioli’r trefniadau hyn rhag ofn y bydd y pandemig yn cyrraedd penllanw arall yn y dyfodol.

30 Mae aelodau o drefn reoli’r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan mewn ymarfer ôl-drafodaeth a gwersi a ddysgwyd trylwyr iawn. Bu'r ymarfer hwn, a gefnogwyd gan dîm cydnerthedd yr Ymddiriedolaeth, yn gyfle i’r aelodau ystyried ymateb yr Ymddiriedolaeth i’r pandemig. Roedd yn ymarfer eang ac fe bennwyd argymhellion, meysydd i’w gwella a threfniadau y dylid parhau i’w rhoi ar waith ar draws yr Ymddiriedolaeth. Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn crynhoi canfyddiadau'r ymarfer i Dîm Gweithredol y Pandemig ym mis Gorffennaf, ac maent yn cael eu hystyried fel rhan o gynlluniau adfer yr Ymddiriedolaeth (gweler **paragraff 66**).

## Rheoli risg

31 **Mae’r Ymddiriedolaeth yn dal i adolygu ac i reoli ei risgiau, gan gynnwys o ran COVID-19, ac mae’n gwella ei threfniadau i adrodd am risgiau.**

32 Wrth iddi ymateb i’r pandemig, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth beidio â llunio cofrestr risg benodol ar wahân ar gyfer COVID-19, a defnyddio’i systemau presennol yn lle hynny. Dywedodd swyddogion gweithredol wrthym fod trafodaethau am risgiau'n cael eu cynnal o hyd o fewn trefn reoli’r Ymddiriedolaeth,

[5] Y Cyfarwyddwyr a benodwyd yn ddiweddar yw’r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio, y Cyfarwyddwr Digidol, a’r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad.

er nad yw’r rhain yn cael eu llywio gan adolygiadau rheolaidd o’r gofrestr risg gorfforaethol. Er enghraifft, cafodd risgiau gweithredol penodol, fel cyflenwi cyfarpar diogelu personol, eu trafod, eu cofnodi a’u huwchgyfeirio’n rheolaidd iawn drwy system adrodd risg du, coch, oren, gwyrdd.

33 Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tîm Arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth sydd fel arfer yn gyfrifol am adolygu risgiau i’w cynnwys ar y gofrestr rheoli risg. Yn ystod y pandemig, trosglwyddodd y cyfrifoldeb dros y dasg hon i Dîm Gweithredol y Pandemig. Cafodd risgiau corfforaethol eu hadolygu’n briodol, gyda risgiau’n cael eu dileu ar ôl rhoi mesurau effeithiol ar waith i’w lliniaru a risgiau newydd yn cael eu pennu ar sail cofrestri ategol. Ym mis Mai 2020, rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch a’r Bwrdd am newidiadau, a buont yn craffu arnynt, ond ni chawsant eu trafod ers hynny. Fodd bynnag, mae’r Ymddiriedolaeth yn dweud bod y Bwrdd wedi symud at system adrodd risg ddeinamig yn ystod y pandemig, gan adolygu risgiau yn y fan a’r lle.

34 Yn ein hadroddiad am Asesiad Strwythuredig 2019, bu inni ganfod y byddai modd gwella ansawdd y gofrestr rheoli risg, er enghraifft, drwy gynnwys gwybodaeth am gamau lliniaru, ac mae hyn yn dal i fod yn broblem. Er enghraifft, mae’r sgôr risg o ran mantoli cyllideb yr Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn wedi cynyddu oherwydd y pandemig, ond nid oes unrhyw gamau lliniaru wedi’u nodi ar gyfer y risg hon. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2020, cytunodd y Bwrdd ar newidiadau i’r drefn adrodd am y gofrestr rheoli risg. O fis Medi 2020, bydd y Pwyllgor Archwilio’n cefnu ar system adrodd ôl-weithredol am risgiau. Yn hytrach, bydd modd iddo gael gafael ar gofrestri risg Datix byw sy’n drysorfa o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am gamau lliniaru.

35 Yn ein hadroddiad am Asesiad Strwythuredig 2019, bu inni hefyd argymell y dylai’r Ymddiriedolaeth wneud mwy o ddefnydd, a defnydd mwy cyson, o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Nid yw’r Bwrdd wedi ystyried ei Fframwaith Sicrwydd ers mis Mawrth 2020. Mae hyn i’w ddisgwyl o gofio bod galwadau COVID-19 wedi arwain at atal dros dro y rhan fwyaf o gamau strategol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y rheini a geir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, bu’r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn ystyried Fframwaith Sicrwydd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020. Roedd hwn yn tynnu sylw at faterion a risgiau strategol allweddol i’r Pwyllgor eu hystyried. O gyflwyno Fframweithiau Sicrwydd ar gyfer y pwyllgorau, gallai fod o gymorth mawr i'r aelodau ganolbwyntio ar risgiau strategol o fewn eu cylchoedd gwaith. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datgan ei bod wedi ymrwymo i sicrhau bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn parhau i fod yn offeryn allweddol i’r Bwrdd, a bydd yn ailddechrau adrodd o fis Medi 2020, yn ogystal â chyflwyno mwy o Fframweithiau Sicrwydd ar gyfer ei phwyllgorau yn ystod 2020-21.

## Systemau sicrwydd

36 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth systemau effeithiol i sicrhau ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau a llesiant ei staff.**

37 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i roi llawer o bwyslais ar ansawdd a diogelwch yn ystod y pandemig. Roedd cynrychiolydd o'r adran Ansawdd a Nyrsio'n aelod o bob cell yn y drefn reoli. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn canolbwyntio ar ansawdd a bod y goblygiadau o ran ansawdd yn cael eu hystyried yn ofalus.

38 Yn unol â'r Cynllun Pandemig, bu i'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu chwe gwasanaeth craidd gyda'r bwriad o ddarparu a chefnogi ei gwasanaethau 111 a 999. Penderfynodd hefyd barhau i recriwtio staff rheng flaen ychwanegol yn unol ag argymhellion adolygiad gallu a galw 2019.[6] Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am ystyriaethau ansawdd a diogelwch pwysig o ran newidiadau i wasanaethau. Er enghraifft, oherwydd y cynnydd cyflym yn nifer staff y gwasanaeth 111, a'r defnydd o'r lluoedd arfog, roedd angen cytuno'n gyflym ar drefniadau a chrynhoi'r rhaglenni hyfforddi. Hefyd, yn yr un modd â gwasanaethau ambiwlans eraill y DU, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth brotocol pandemig penodol o'r enw CARD36 i ymdrin â galwadau 999.[7] Cafodd y Bwrdd weld trefniadau ansawdd a diogelwch y datblygiadau hyn, a datblygiadau eraill, ac roedd yn fodlon â nhw.

39 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch wedi ystyried trefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth o ran COVID-19 a busnes arferol. Ym mis Mai 2020, cafodd y Pwyllgor sicrwydd o ran heintio, atal a rheoli, maes a gafodd fuddsoddiad i gefnogi cydnerthedd yr Ymddiriedolaeth drwy ddarparu cymorth a hyfforddiant ychwanegol. Cafodd y Pwyllgor hefyd wybodaeth am ddigwyddiadau niweidiol o ran COVID-19, a manylion am gell iechyd a diogelwch a grŵp cyngor clinigol y drefn reoli. Daliodd yr Ymddiriedolaeth ati i gynnal ei hadolygiadau o farwolaethau a'i phrosesau Gweithio i Wella yn ystod y pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n adolygu rhai arferion a chanllawiau allweddol yn unol â'r camau i gyflwyno Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn Strategaeth Ansawdd ddiwygiedig yr Ymddiriedolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch ym mis Rhagfyr 2020.

40 Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ac yn rheoli llesiant, iechyd a diogelwch y gweithlu mewn ffordd ragweithiol. Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn dal i fonitro metrigau'r gweithlu, gan gynnwys metrigau sy'n ymwneud â COVID-19, fel adleoli staff, hyfforddiant, llesiant, ac unrhyw gamau adfer gofynnol. Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau asesiad risg o'i hystad i weld a yw'n cydymffurfio â gofynion COVID-19. Ar hyn o bryd, mae tîm ystadau'r Ymddiriedolaeth yn rhoi sylw i'r camau i'w cymryd i osod arwyddion ac i gyflwyno mesurau eraill i gadw pellter

[6] Yn 2018, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans adolygiad gallu a galw ar y cyd. Bu'r adolygiad yn ystyried sut y bydd angen i'r gwasanaeth ambiwlans a'i weithlu newid i ateb galwadau'r boblogaeth dros gyfnod o bum mlynedd.

[7] Lluniwyd y protocol brysbennu hwn yn benodol i reoli'r pandemig, ac mae'n asesu pob claf â phroblemau anadlu, poen yn y frest, neu salwch fel y ffliw (person sâl) dan yr un protocol.

cymdeithasol. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi dechrau cyflwyno Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu, sy'n adnodd Cymru gyfan, i sicrhau ei bod yn pennu ac yn cefnogi staff sy’n agored i niwed gan COVID-19, yn enwedig staff o grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

41 Cydnabu’r Ymddiriedolaeth yn gyflym fod argaeledd cyfarpar diogelu personol yn risg allweddol o ystyried yr heriau yn y gadwyn gyflenwi ar ddechrau’r pandemig. Hwn oedd un o’r meysydd busnes craidd a gafodd ei flaenoriaethu yn unol â’r Cynllun Pandemig. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu â’i staff i roi gwybod iddynt am y gofynion ac unrhyw newidiadau iddynt drwy gydol y pandemig, a hynny drwy bosteri, sesiynau rhithwir rhyngweithiol, a fideos arddangosiadol. I sicrhau bod ei staff yn cael eu diogelu’n effeithiol mewn sefyllfaoedd amrywiol ac mewn mannau cyhoeddus, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth ddilyn y canllawiau cenedlaethol ar gyfarpar diogelu personol fel y safon ofynnol a, chan ddefnyddio dull pragmatig, defnyddio lefelau uwch o gyfarpar diogelu personol lle’r oedd yn briodol.

42 Mae’r Tîm Gweithredol wedi ymrwymo i gyfathrebu’n gyson ac yn ymatebol â’r staff yn ystod y pandemig, gan gynnwys anfon e-byst briffio dyddiol a chynnal cyfarfodydd byw i’r holl staff drwy Zoom. Roedd y cyfarfodydd byw yn fodd o sicrhau bod y staff a’r Tîm Gweithredol yn gallu cyfathrebu â’i gilydd ynghylch pryderon a datblygiadau pwysig. I gychwyn, cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn bob wythnos, ond maent yn digwydd yn llai aml ers i effaith y pandemig bylu. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth hefyd arolwg staff i ddod i ddeall eu profiadau nhw. Bydd hyn yn helpu i osod sail i’w chynlluniau ar gyfer unrhyw benllanw arall yn y dyfodol, ac yn cael ei ystyried fel rhan o’i strategaeth llesiant a gyhoeddir yn ddiweddarach yn 2020.

43 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i olrhain y cynnydd a wnaed o ran canfyddiadau archwiliadau ac adolygiadau. Mae’r Pwyllgor Archwilio’n adolygu’r log olrhain argymhellion archwilio mewnol ac allanol ym mhob cyfarfod. Mae fformat y log olrhain yn sicrhau bod modd i aelodau’r pwyllgor weld gwybodaeth am y cynnydd a wnaed o ran pob argymhelliad. Cafodd y log olrhain ei atal dros dro ym mis Mawrth 2020. Ym mis Mehefin 2020, gofynnodd aelodau’r Pwyllgor Archwilio am i’r argymhellion a’r dyddiadau cwblhau gael eu hadolygu erbyn ei gyfarfod ym mis Medi 2020 i sicrhau bod yr argymhellion yn parhau i fod yn berthnasol a bod yr amserlenni i’w cwblhau’n realistig.

44 Yn ddiweddar, mae’r Ymddiriedolaeth wedi dechrau cyfeirio rhannau perthnasol o’r log olrhain argymhellion archwilio at bob Pwyllgor i ategu’r gwaith o oruchwylio’r argymhellion sy’n ymwneud â’u cylchoedd gwaith a chraffu arnynt. Darparwyd papurau yn gyntaf i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a’r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Gorffennaf 2020, ond nodwyd nad oedd llawer o gynnydd wedi’i wneud o ran y camau gweithredu oherwydd bod y log olrhain wedi’i atal dros dro bryd hynny. Cafodd rhaglen archwilio clinigol yr Ymddiriedolaeth ei hatal dros dro ym mis Mawrth 2020 hefyd ac mae ar fin ailddechrau, yn ddibynnol ar benderfyniadau ynghylch pa rai o archwiliadau'r rhaglen fydd yn parhau ar ôl y pandemig.

# Rheoli adnoddau ariannol

45 Yn ein gwaith, buom yn ystyried perfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, newidiadau i'r rheolaethau ariannol yn ystod y pandemig, a'r trefniadau i fonitro'r perfformiad ariannol ac i adrodd arno. Buom hefyd yn adolygu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol o ran cynllunio cyfalaf strategol ac adrodd am weithredoedd tendr sengl.

46 Bu inni ganfod **bod gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau ariannol a threfniadau adrodd effeithiol, er bod gwariant o ran COVID-19 yn peri risg o ran mantoli'r gyllideb yn ystod 2020-21.**

## Cyflawni'r prif amcanion ariannol

47 **Bu i'r Ymddiriedolaeth gyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2019-20, ond mae perfformiad cynlluniau arbed unigol yn dal i amrywio ac mae perfformiad 2020-21 yn dibynnu ar gael incwm ychwanegol ar gyfer gwariant sy'n ymwneud â COVID-19.**

48 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mantoli'r gyllideb yn gyson, gan sicrhau gwarged bach bob blwyddyn, gan gynnwys gwarged o £45,000 yn 2019-20. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd (2017-18 tan 2019-20) ac i gael Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2019-20 tan 2021-22. Cadwodd yr Ymddiriedolaeth o fewn ei therfyn gwariant cyfalaf, ac achubodd ar y cyfle a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i froceru elfennau o'r arian cyfalaf nas cynlluniwyd ac nas gwariwyd ar gyfer 2019-20.

49 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth arbedion a gynlluniwyd gwerth cyfanswm o £2.163 miliwn yn 2019-20, sef £53,000 yn fwy na'i tharged. Fodd bynnag, mae perfformiad cynlluniau arbed penodol wedi amrywio, fel y gwnaeth ers sawl blwyddyn, gyda rhai cynlluniau'n gorgyflawni neu'n tangyflawni'n sylweddol o ran yr arbedion a gynlluniwyd. Er enghraifft, bu i'r cynllun rheoli swyddi gwag orgyflawni'n sylweddol drwy arbed £654,000 yn fwy na'r targed. Gwnaeth hyn yn iawn am dangyflawni mewn meysydd eraill, gan gynnwys y gweithlu, arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid (swm o £380,000). Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth nifer o gynlluniau lleol hefyd, gyda rhai ohonynt yn denu incwm ychwanegol yn hytrach na lleihau costau.

50 Yn ein hadroddiad am Asesiad Strwythuredig 2019, bu inni argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth gefnu ar gynlluniau cyfalaf blynyddol i sicrhau bod modd iddi ddefnyddio ei dyraniadau cyfalaf yn effeithiol. Eleni eto, roedd gan yr Ymddiriedolaeth gyfalaf dewisol nas dyrannwyd erbyn mis Ionawr. Gwaethygodd y sefyllfa hon oherwydd llithriant o £1.339 miliwn a achoswyd gan y pandemig. Aeth y Bwrdd a grwpiau mewnol i'r afael â hyn o fewn y terfynau dirprwyedig ym mis Mawrth 2020.

51 O ran 2020-21, ariannwyd gwariant cyfalaf yr Ymddiriedolaeth o ran COVID-19 yn wreiddiol o'i dyraniad Cyfalaf Dewisol. Gwnaed hyn gan gymryd y byddai'r

Ymddiriedolaeth yn cael ad-daliad ac yna y byddai modd iddi ailgychwyn ar y rhaglen gyfalaf a gynlluniwyd ganddi yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, cafodd yr Ymddiriedolaeth neges gan Lywodraeth Cymru ynghylch Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan a oedd yn dweud na fyddai'n cael yr holl arian cyfalaf yr oedd yn disgwyl ei gael. Yn sgil hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ac ailflaenoriaethu ei rhaglen gyfalaf, gan atal nifer o'r cynlluniau a gymeradwywyd dros dro, gan gynnwys ei rhaglen i brynu cerbydau newydd. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cadw golwg ar ei rhaglen gyfalaf i'w galluogi i roi cynlluniau ar waith os bydd mwy o arian cyfalaf ar gael.

52 Amlen adnoddau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 yw £211.3 miliwn. Mae rhaglen waith yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar y cynllun ariannol a nodir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23. Ceir rhai rhagdybiaethau ariannol pwysig yng nghynllun ariannol tair blynedd yr Ymddiriedolaeth o ran cynnydd yn yr arian gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd â llawer o gyrff eraill y GIG, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn disgwyl y bydd yn cael mwy o incwm gan Lywodraeth Cymru i dalu am yr holl wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19, felly nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys y costau hyn yn ei chyllideb refeniw. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu targed uchelgeisiol iddi ei hun i arbed £4.3 miliwn yn 2020-21, swm sydd ddwywaith cymaint â tharged 2019-20. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth reoli ei harbedion yn ofalus, yn enwedig o gofio bod y perfformiad yn amrywio o gynllun i gynllun, fel y trafodir uchod, a bod perygl na chaiff ei had-dalu'n llwyr am wariant COVID-19.

53 Erbyn mis tri, roedd adroddiad yr Ymddiriedolaeth am ei pherfformiad yn dangos tanwariant bach o £10,000 yn ystod y flwyddyn hyd yma o'i gymharu â'r gyllideb. Cofnododd yr Ymddiriedolaeth wariant ychwanegol o £5.127 miliwn oherwydd COVID-19, swm y mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio ad-daliad ar ei gyfer. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni arbedion o £1.193 miliwn, sef 85% o darged mis tri. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ceisio incwm ychwanegol am beidio â chyflawni rhai o arbedion 2020-21 oherwydd COVID-19, sef swm o £175,000 fel yr oedd ym mis Mehefin 2020. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd cyrff y GIG yn cael incwm ychwanegol ar gyfer yr holl wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19.

54 Wrth i'r Ymddiriedolaeth ddychwelyd at ei threfniadau gweithredu arferol, mae'n seilio ei rhagdybiaethau ariannol ar gyfer ei chynlluniau adfer mwy hirdymor ar y cynllun ariannol presennol a geir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, wrth iddi ystyried ei hymateb i'r pandemig, mae'r Ymddiriedolaeth yn pennu meysydd busnes y mae angen buddsoddi ynddynt i baratoi ar gyfer tonnau posibl o COVID-19 yn y dyfodol. Mae cynrychiolydd ariannol yn aelod o'r rhan fwyaf o gelloedd a thimau trefn reoli COVID-19 yr Ymddiriedolaeth i roi cyngor a chymorth pan fydd cynlluniau ymateb ac adfer yn cael eu llunio a'u hadolygu.

## Rheolaethau ariannol

55 **Nid yw rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth wedi newid yn sylweddol ac, er ei bod yn cofnodi ac yn tracio gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae lle i ffurfioli'r prosesau cymeradwyo.**

56 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio log gwariant COVID-19 i gofnodi ei gwariant, sef gwariant net o £5.127 miliwn erbyn mis tri. Mae log gwariant COVID-19 yn cofnodi gwariant amrywiol, gan gynnwys costau staff, seilwaith, cyfarpar, cerbydau a chyfarpar diogelu personol. Mae hefyd yn cofnodi unrhyw arbedion annisgwyl oherwydd tanwydd a gostyngiad yn y galw am dacsis gan y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys.

57 Cafodd gwybodaeth am wariant COVID-19 ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Grŵp Cyllid Gweithredol, y Tîm Rheoli Gweithredol, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, a'r Bwrdd. Mae rheolwyr adrannau a rheolwyr cyllid yn craffu ar unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19. Ar hyn o bryd, mae'r tîm cyllid yn cynnal mwy o brofion diwydrwydd dyladwy ar y gwariant a ddyrannwyd i godau gwariant COVID-19, ochr yn ochr â her gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae adolygiad cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r trefniadau llywodraethu'n dweud bod lle i wella'r modd y mae log gwariant COVID-19 yn cael ei reoli, gan nodi nad yw wedi'i adrodd wrth Dîm Gweithredol y Pandemig na'i gymeradwyo ganddo, gydag adroddiadau *ad hoc* yn cael eu darparu yn lle hynny.

58 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgymryd â'i busnes yn sgil COVID-19 o fewn ei threfniadau presennol i reoli arian. Fel y dywedwyd eisoes, pan oedd angen gwneud penderfyniadau ar fyrder a rhwng cyfarfodydd y Bwrdd, penderfynodd y Bwrdd ddefnyddio camau gweithredu'r Cadeirydd ar gyfer pob ymrwymiad gwario uwchlaw terfyn dirprwyedig y Prif Weithredwr. Defnyddiwyd camau gweithredu'r Cadeirydd bum gwaith rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, gyda'r manylion yn cael eu dogfennu a'u cymeradwyo yng nghyfarfodydd nesaf y Bwrdd. Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth eisoes yn egluro'r weithdrefn i'w dilyn pan all fod angen hepgor trefniadau tendro, felly nid ydynt wedi newid. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhai mân newidiadau i'w rhestr o lofnodwyr awdurdodedig, mae'r rhain wedi bod yn newidiadau arferol, nid newidiadau yn sgil COVID-19. Fodd bynnag, pennodd adolygiad cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r trefniadau llywodraethu fod lle i wella rheolaethau'r Ymddiriedolaeth o ran gwneud taliadau ychwanegol i uwch-reolwyr. Cyflwynwyd y taliadau ychwanegol hyn yn sgil COVID-19. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad dystiolaeth a oedd yn dangos bod rhai unigolion wedi cael cynnydd canrannol ac oriau goramser wedi'u heitemeiddio.

59 Er bod llawer o staff yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys staff o'r tîm cyllid, wedi'u hadleoli, cafodd rhai staff cyllid eu neilltuo i sicrhau bod modd i'r sefydliad fodloni dyddiad cau ei gyfrifon. Nid yw proses gaffael yr Ymddiriedolaeth wedi newid fawr ddim yn ystod ei hymateb i'r pandemig, ac mae'r tîm cyllid yn dweud bod y cymorth caffael a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi bod yn dda iawn. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020, bu i'r Pwyllgor Archwilio adolygu

hepgoriadau a gweithredoedd tendr sengl. Roedd un ohonynt yn ymwneud â COVID-19. Roedd y Pwyllgor Archwilio'n fodlon bod y camau a gymerwyd yn briodol a bod modd eu cyfiawnhau. Fodd bynnag, bu inni argymell yn Asesiad Strwythuredig 2019 y dylai'r Ymddiriedolaeth geisio rhoi mwy o wybodaeth yn ei hadroddiadau am weithredoedd tendr sengl. Gwnaeth adolygiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol o hepgoriadau tendr sengl yn 2019-20 fwy o argymhellion manwl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gwneud newidiadau i'w threfniadau maes o law.

60 Mae trefniadau adrodd ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gydnaws â gofynion monitro diwygiedig Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau'n dal i gael adroddiadau lefel uchel rheolaidd am y sefyllfa ariannol o'i chymharu â'r cynllun, a hynny i sicrhau bod modd iddynt gadw llygad ar wariant COVID-19 a gwariant nad yw'n ymwneud â COVID-19.

# Cynllunio gweithredol

61 Yn ein gwaith, buom yn ystyried y cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran llunio a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Pan oeddem yn ymgymryd â'n gwaith, roedd yn canolbwyntio ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol pan fydd yn ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

62 Bu inni ganfod **bod yr Ymddiriedolaeth wedi llunio cynlluniau gweithredol ymatebol sy'n ystyried yr adnoddau gofynnol, ac yn cael eu monitro a'u hadrodd, a'i bod hefyd wedi parhau i lunio cynlluniau strategol eraill.**

## Llunio'r cynllun

63 **Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio cynlluniau gweithredol ymatebol sy'n gydnaws â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae wedi parhau i lunio cynlluniau strategol allweddol eraill.**

64 Roedd cynlluniau gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn chwarter un a chwarter dau yn bodloni gofynion Fframwaith Gweithredu COVID-19 GIG Cymru. Cafodd y cynlluniau eu cydgysylltu ar fyrder gan Dîm Gweithredol y Pandemig ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd cyn eu cyflwyno erbyn eu dyddiadau cau.

65 Mae'r cynlluniau gweithredol yn nodi sut y mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gefnogi'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan y Byrddau Iechyd drwy gydol y pandemig. Drwy'r cynlluniau gweithredol, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ymateb i wasanaethau hanfodol ychwanegol, yn ogystal â pharatoi ar gyfer newidiadau mawr, gan gynnwys rhoi Rhwydwaith Trawma Mawr y De ar waith ac agor Ysbyty Athrofaol y Faenor.

66 Mae'r cynlluniau gweithredol yn nodi sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn llunio ei chynlluniau adfer. Cafodd y gwaith ar y cynlluniau adfer ei arwain gan y gell parhad

busnes ac adfer a'i gydgysylltu gan Dîm Gweithredol y Pandemig. Mae'r cynlluniau adfer yn cynnwys adolygiad o'r camau i'w cyflawni yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23 i bennu pa gamau sy'n dal i fod yn berthnasol ar ôl cyfnod cyntaf y pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnwys yr hyn a ddysgwyd drwy ei hymarfer ôl-drafodaeth ar lefel weithredol leol ac ar lefel strategol, yn ogystal ag adborth gan gydweithwyr a'r cyhoedd.

67 Mae'r cynlluniau gweithredol yn cynnwys disgrifiad o'r ffordd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn taro cydbwysedd rhwng adfer y sefydliad a pharhau i fod yn hyblyg er mwyn iddi ymateb i unrhyw donnau pellach o'r pandemig, gan gynnwys rhoi camau a strwythurau ymateb ar waith yn ôl y gofyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi y bydd yn wynebu heriau mawr os bydd tonnau pellach o'r pandemig yn cyd-daro â ffactorau eraill fel pwysau'r gaeaf neu ddigwyddiad mawr.

68 I sicrhau bod modd iddi ymateb yn gyflym, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno cylchoedd cynllunio dwy i dair wythnos sy'n seiliedig ar fodelu'r galw posibl a allai ddeillio o donnau pellach o COVID-19. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ymgynghorwyr allanol a'i meddalwedd Optima Predict i fodelu'r galw. Caiff yr wybodaeth ei hadolygu a'i mireinio gan grŵp rhagolygon a modelu newydd sy'n cynnwys cynrychiolwyr partneriaid allweddol. Mae'r grŵp hwn yn tracio cyfradd heintio COVID-19 a'r galw cyfatebol am wasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

69 Mae'r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru wedi ystyried cynlluniau gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Bu i'r Comisiynydd herio'r Ymddiriedolaeth i fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol i bennu amgylchiadau sy'n newid ar draws cyrff y GIG ac i ymateb iddynt. Bu i Lywodraeth Cymru hefyd herio'r Ymddiriedolaeth i roi eglurhad manylach o'r risgiau yng nghynllun gweithredol chwarter un, gan gynnwys sut y bydd yn cefnogi'r camau i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ac i fonitro perfformiad. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd i'r afael â'r sylwadau hyn yng nghynllun gweithredol chwarter dau sy'n rhoi mwy o fanylion am y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn camu o'r cyfnod ymateb cychwynnol i gefnogi gwasanaethau ehangach, gan sicrhau ei bod yn dal i fod yn hyblyg ar yr un pryd.

70 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020 ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo'n ffurfiol oherwydd iddi atal y broses gymeradwyo dros dro ar ddechrau'r pandemig. Fel rhan o'i gwaith i roi'r Cynllun Pandemig ar waith, bu i'r Ymddiriedolaeth atal y rhan fwyaf o flaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig dros dro, gan barhau i weithio ar y blaenoriaethau y tybiwyd eu bod yn hanfodol, fel recriwtio a hyfforddi staff ei Gwasanaeth Meddygol Brys. Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailddechrau rhoi sylw i nifer fechan o weithgareddau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ochr yn ochr ag adolygiad o bob blaenoriaeth a'u camau ategol.

71 Ochr yn ochr â'i chynlluniau gweithredol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i roi nifer o gynlluniau a strategaethau ategol eraill ar waith. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020, bu i'r Bwrdd gymeradwyo strategaeth glinigol yr Ymddiriedolaeth, **Delivering Clinical Excellence Strategy**

**2020-25**. Bydd y strategaeth hon yn cael ei hategu gan Strategaeth Ansawdd yr Ymddiriedolaeth y disgwylir i'r Bwrdd ei chymeradwyo'n ddiweddarach eleni. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cwblhau ei Strategaeth Llesiant a'i Strategaeth Ddigidol i'w cymeradwyo gan y Bwrdd yn hwyr yn 2020.

72 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cael trafodaethau sy'n cydnabod mudiad diweddar Mae Bywydau Du o Bwys, gan adfyfyrio a'i herio'i hunan i ystyried sut y gall wneud newidiadau cadarnhaol. Rhannodd yr Ymddiriedolaeth neges drawiadol â'r holl staff am safbwynt y sefydliad ac, fel rhan o'i chynllun cydraddoldeb, **Trin Pobl yn Deg 2020-24**, mae wedi ymrwymo i wella amrywiaeth ei gweithlu.

73 Mae proses gynllunio'r Ymddiriedolaeth yn cael ei hategu gan waith partneriaeth effeithiol yn fewnol ac yn allanol. Roedd y swyddogion y bu inni gwrdd â nhw fel rhan o'n gwaith yn canmol cyfraniad yr undebau llafur drwy drafodaethau'r drefn reoli, cyfraniad sydd wedi arwain at wella'r trefniadau yn ystod y pandemig o ran mynediad at gyfarpar diogelu personol, cydymffurfio â'r gofynion hyfforddi, a chadw pellter cymdeithasol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r dulliau ymgysylltu cadarnach hyn yn ei busnes arferol. Yn allanol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gofyn am fewnbwn rheolaidd gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar faterion cynllunio pwysig, gan gynnwys Bwrdd y Rhaglen Gallu a Galw a chludiant i ysbytai dros dro. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth â'r gwasanaethau tân ac achub yn sgil COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi ei herio i lunio trefniadau cydweithio hirdymor cynaliadwy. Fe'i heriwyd hefyd i ystyried sut y gall gryfhau gwaith partneriaeth â'r awdurdodau lleol a'r sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

74 Mae'r cynlluniau gweithredol yn datgan bwriad i ymgysylltu â'r cyhoedd, er bod y Cynllun yn cydnabod bod cyfathrebu â staff a rhanddeiliaid yn rhan hollbwysig o'r ymateb hyd yma. Ddiwedd mis Mai 2020, gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r cyhoedd roi eu barn ar eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth yn ystod y pandemig, a hynny drwy gomisiynu arolwg. Cafodd y canlyniadau eu bwydo i grwpiau mewnol amrywiol yn yr Ymddiriedolaeth a'u rhannu â phartneriaid allweddol gan gynnwys Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal ei chysylltiadau ar lefel leol â'r Cynghorau Iechyd Cymuned, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio sefydlu dull mwy ffurfiol o ymgysylltu â Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru pan fydd yn llunio cynlluniau gweithredol yn y dyfodol.

## Adnoddau i roi'r cynllun ar waith

75 **Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio systemau i sicrhau bod ganddi weithlu hyblyg a fydd yn gallu ymateb i unrhyw benllanw pellach o'r pandemig yn y dyfodol, yn ogystal â mynd ati i gefnogi llesiant ei gweithlu.**

76 Wrth iddi ymateb i'r pandemig, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud llawer o waith cynllunio a pharatoi i sicrhau bod modd iddi gynyddu ei chapasiti gweithredol ar draws ei gwasanaethau craidd yn ôl y gofyn. Cynlluniodd yr Ymddiriedolaeth ddull haenog i gyflenwi capasiti ychwanegol a oedd yn cynnwys amryw o opsiynau

mewnol ac allanol, fel adleoli staff gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd i ateb galwadau 111, cael cymorth gan y cohort presennol o fyfyrwyr parafeddygol ym Mhrifysgol Abertawe, a defnyddio staff partneriaid eraill, fel y gwasanaethau tân ac achub a'r lluoedd arfog. I gefnogi'r trefniadau hyn, aeth yr Ymddiriedolaeth ati ar fyrder i ddatblygu gwasanaeth addysg ar-lein. O ganlyniad i hyn, gall yr Ymddiriedolaeth ddewis o blith opsiynau amrywiol i gynyddu ac i leihau ei chapasiti yn unol â'r galw.

77 Mae iechyd a llesiant y staff yn nodwedd bwysig o gynlluniau gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Mae tîm Iechyd Galwedigaethol a Llesiant yr Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr, gan gyfeirio staff at ei borthol yn aml, cynnal sesiynau galw heibio bob wythnos, cynnal gweithdai, ac ymuno ag ymgyrchoedd cenedlaethol gan gynnwys yr Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a'r Wythnos Iechyd Dynion. Cafwyd cynnydd yn nifer y galwadau i'r tîm Llesiant ynghylch gorbryder, ac mae wedi cynyddu nifer y gweithdai gorbryder rhyngweithiol o'r herwydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynyddu nifer y cyfathrebiadau mewnol i annog ei staff i fanteisio ar y sesiynau galw heibio a'r gwasanaeth cwnsela os oes angen. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sylweddoli bod gweithio gartref, gwarchod a hunanynysu wedi amharu ar fywydau'r staff ac mae wedi mabwysiadu dull arwain tosturiol i gynorthwyo'r staff i ddychwelyd at drefniadau gweithio mwy arferol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn mynd ati i fonitro'r lefelau absenoldeb, gan roi gwybod bob dydd i Lywodraeth Cymru am absenoldebau oherwydd COVID-19.

78 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau â'r gwaith o lunio Strategaeth Ddigidol y disgwylir iddi gael ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref 2020. Bydd y Strategaeth yn amlinellu'r cynnydd a wnaed eisoes yn sgil COVID-19 o ran yr agenda ddigidol a'r agenda gwybodeg iechyd. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailfrandio gwefan Galw Iechyd Cymru â'r brand 111. Arni, ceir gwirydd symptomau a ddefnyddiwyd yn helaeth ers ei sefydlu. Mae gan yr Ymddiriedolaeth amcanion uchelgeisiol eraill i ddatblygu ei hagenda ddigidol yn unol â'r fframwaith strategol hirdymor a gyhoeddwyd yn 2019, gan gynnwys datblygu datrysiad electronig ar gyfer Cofnodion Clinigol Cleifion.

## Monitro'r camau i roi'r cynllun ar waith

79 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i oruchwylio'r camau i roi cynlluniau pwysig ar waith, ac i graffu arnynt.**

80 Mae cynllun gweithredol chwarter un yn amlinellu'r broses i oruchwylio'r camau a gymerwyd i'w roi ar waith. Tîm Gweithredol y Pandemig sy'n goruchwylio hyn. Caiff camau gweithredu a materion penodol eu dirprwyo i Dîm Gweithredol y Pandemig yn unol â threfn reoli'r pandemig, lle bo'n briodol, ac mae'r cynnydd yn cael ei adrodd drwy bapurau'r pandemig a diweddariadau llafar. Ceir deg 'Cell Weithredol' ychwanegol ar sail ddaearyddol i sicrhau bod opsiynau tactegol yn cael eu rhoi ar waith yn lleol.

81 Cafodd Bwrdd Trawsnewid Strategol yr Ymddiriedolaeth, sy'n bennaf gyfrifol am oruchwylio hynt y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ei atal dros dro ym mis Mawrth 2020 oherwydd bod y rhan fwyaf o flaenoriaethau'r Cynllun hwnnw wedi'u hatal dros dro. I gefnogi'r broses o roi ei chynlluniau gweithredol ar waith, bu i'r Ymddiriedolaeth adfer y Bwrdd Trawsnewid Strategol ym mis Mehefin 2020, ac mae'n cwrdd bob mis. Mae'r fforwm hwn yn cytuno ar raglen o waith sy'n flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth ac yn monitro'r camau i gyflawni cynlluniau gweithredol a blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol hefyd yn sicrhau bod y Comisiynydd a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn cael gwybod am y blaenoriaethau, a bod y blaenoriaethau'n gydnaws â'r amcanion comisiynu.

82 Fel y disgrifiwyd eisoes, bu i'r Bwrdd gymeradwyo cynlluniau gweithredol chwarterol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Bwrdd yn disgwyl cael gwybod yn rheolaidd am y cynnydd a wnaed o ran y blaenoriaethau gweithredol, y blaenoriaethau adfer a blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Bwrdd yn parhau i graffu ar berfformiad a chynnydd yn ei gyfarfodydd. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020, cafodd y Bwrdd bapur diweddaru am y cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran cynllun gweithredu chwarter dau. Roedd y papur yn rhoi sgôr Coch, Oren neu Wyrdd i bob cam i'w gyflawni, yn ogystal â naratif i ddisgrifio'r cynnydd a wnaed. Roedd yr adroddiad yn dangos cynnydd da ar y cyfan o ran prif gamau cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn ogystal â chamau cyflawni cynllun gweithredol ehangach chwarter dau. Croesawyd hyn gan aelodau'r Bwrdd.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.